

Elfennau stori

“Ac yr ydym yn eich annog ... byddwch yn amyneddgar wrth bawb.” (adn.14)

Beth am ddarlflen 1 Thesaloniaid 5:12–28 ac yna myfyrio

Parhawn i feddwl am yr hyn sy'n gwneud stori. Pan ddechreuais i gyntaf ar fy ngweinidogaeth o sgwennu, fe ymunais â chwrs ar gyfer sgwenwyr, ac roedd un adran ohono yn ymdrin â'r dechneg o sgwennu storiâu byrion. Dywedwyd wrthyf y dylai fod pedair elfen i stori fer: (1) cymeriadau; (2) plot; (3) symudiad; (4) diwedd glo neu ddadleniad. Cymerwch y cyntaf o'r rhain: *cymeriadau*. Mae llawer o gymeriadau gwahanol i stori dda – cymeriadau arweiniol, rhai cynorthwyol, gwrthwynebwy'r, ac felly ymlaen. Mae amrywiaeth o gymeriadau yn eich stori chithau a'm un innau: ffrindiau, gelynion, pobl sydd o'n plaid a phobl sydd yn ein herbyn.

Arferai fy ngweinidog ddweud wrthyf fi pan oeddwn yn Gristion ifanc: “Cofia bob amser fod y bobl rwy'ti'n ymwneud â nhw yn rhan o fwriad Duw ar gyfer dy fywyd.” Mae'r rhai nad ydyn nhw'n Gristnogion yn byw eu bywydau ar eu hyd heb i'r brychau yn eu cymeriadau gael eu heffeithio fawr o gwbl, ond mae pethau'n wahanol efo chdi a mi. Er na fydd y gwaith yn cael ei ddwyn i ben nes inni gael gweld yr Arglwydd wyneb yn wyneb, mae'r siapiro mwyaf sylweddol ar ein cymeriadau yn digwydd yma yn awr. Bwriad Duw yw ein gwneud ni'n debyg i Iesu, ac un o'r dulliau sydd ganddo o wneud hyn yw defnyddio'r bobl sydd yn croesi'n llwybr ni fel offerynnau yn ei law i'n siapiro ni a'n gwneud ni'n debycach i Grist.

Mae'r bobl sydd yn dy fywyd di wedi eu dewis gan Dduw ei hun er mwyn amlygu dy dymer, dy falchder, dy ystyfnigrwydd – beth bynnag yw dy wendidau. Dydy rhedeg oddi wrthyn nhw ddim yn ateb o gwbl. Dydy hynny ddim o werth, oherwydd bod gan Dduw lawer yn rhagor i ddod yn eu lle. Gwnewch restr o'r holl bobl nad ydych chi ddim yn cyd-dynnu â nhw a gofynnwch i chi eich hunain: Beth mae Duw yn ceisio ei ddangos imi amdanaf i fy hun trwyddyn nhw? Byddwch yn sicr o hyn: bod y cymeriadau sy'n ymddangos yn eich stori chi yn cael eu defnyddio gan Dduw i ddatblygu eich cymeriadau eich hunain.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Luc 16:19–31; 22:54–62;

Ioan 21:15–17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddaru cymeriad y gŵr cyfoethog newid yn stori Iesu?
2. Pa ran chwaraeodd y gwas yn natblygiad cymeriad Pedr?

Gweddi Dad, helpa fi i ddod i'r afael â'r ffaith nad ydy perthynas efo pobl eraill yn achosi problemau yn gymaint ag y maen nhw'n datguddio problemau. Gwna'n siŵr nad ydw i'n methu'r gwersi rwy'ti'n ceisio eu dysgu imi trwy'r bobl rwy'ti'n eu caniatáu i mewn i'mywyd. Yn enw Iesu. Amen.